



OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

WELSH STATUTORY
INSTRUMENTS

2021 Rhif 413 (Cy. 133)

2021 No. 413 (W. 133)

**IECHYD Y CYHOEDD,
CYMRU**

PUBLIC HEALTH, WALES

Rheoliadau Diogelu Iechyd
(Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif
5) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 6)
2021

The Health Protection (Coronavirus
Restrictions) (No. 5) (Wales)
(Amendment) (No. 6) Regulations
2021

NODYN ESBONIADOL

EXPLANATORY NOTE

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

(This note is not part of the Regulations)

Mae Rhan 2A o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 yn galluogi Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, i wneud darpariaeth at ddiben atal, diogelu rhag, rheoli neu ddarparu ymateb iechyd y cyhoedd i fynychder neu ledaeniad haint neu halogiad yng Nghymru.

Part 2A of the Public Health (Control of Disease) Act 1984 enables the Welsh Ministers, by regulations, to make provision for the purpose of preventing, protecting against, controlling or providing a public health response to the incidence or spread of infection or contamination in Wales.

Mae'r Rheoliadau hyn wedi eu gwneud mewn ymateb i'r bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd a berir gan fynychder a lledaeniad coronafeirws syndrom anadlol aciwt difrifol 2 (SARS-CoV-2) yng Nghymru.

These Regulations are made in response to the serious and imminent threat to public health which is posed by the incidence and spread of severe acute respiratory syndrome coronavirus 2 (SARS-CoV-2) in Wales.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) 2020 (O.S. 2020/1609 (Cy. 335)) ("y prif Reoliadau").

These Regulations amend the Health Protection (Coronavirus Restrictions) (No. 5) (Wales) Regulations 2020 (S.I. 2020/1609 (W. 335)) ("the principal Regulations").

Mae'r diwygiadau yn darparu bod Cymru gyfan yn ardal Lefel Rhybudd 3 o ddechrau'r diwrnod ar 27 Mawrth 2021. Mae hyn yn golygu nad yw'r gofynion blaenorol i aros gartref, neu'n fwy diweddar, i aros yn lleol, yn gymwys mwyach; er bod cyfyngiadau ar deithio i Gymru neu o Gymru yn parhau.

The amendments provide that the whole of Wales is an Alert Level 3 area from the beginning of the day on 27 March 2021. This means that the previous requirements to stay at home, or more recently, to stay local, no longer apply; though restrictions on travelling to or from Wales continue.

Er gwaethaf symud yn ffurfiol i Lefel Rhybudd 3, mae'r diwygiadau yn darparu, am gyfnod cyfyngedig (ar hyn o bryd, tan ddiwedd y diwrnod ar 11 Ebrill 2021), mai'r cyfyngiadau a'r gofynion sy'n gymwys yng Nghymru yw'r rheini a nodir yn Atodlen 3A i'r prif Reoliadau, yn hytrach na'r rheini yn Atodlen 3 (a fyddai fel arall wedi bod yn gymwys i ardal Lefel Rhybudd 3). Y Rheoliadau hyn sy'n mewnosod Atodlen 3A yn y prif Reoliadau.

Mae'r cyfyngiadau Lefel Rhybudd 3 dros dro o dan Atodlen 3A yn wahanol mewn nifer o ffyrdd i'r rheini yn Atodlen 3. Y prif wahaniaethau, o dan y cyfyngiadau dros dro yn Atodlen 3A, yw—

- (a) caiff hyd at 6 o bobl (heb gynnwys plant o dan 11 oed na gofalwyr) o ddim mwy na 2 aelwyd ymgynnull yn yr awyr agored, gan gynnwys mewn gerddi preifat, at unrhyw ddiben, ni waeth pa un a yw'r bobl sy'n ymgynnull yn aelodau o'r un aelwyd estynedig ai peidio;
- (b) dim ond yr aelwydydd hynny a gâi ffurfio aelwydydd estynedig o dan y cyfyngiadau Lefel Rhybudd 4 a oedd yn gymwys yng Nghymru yn union cyn i'r Rheoliadau hyn ddod i rym a gaiff ffurfio aelwydydd estynedig o dan Atodlen 3A (h.y. aelwyd anghenion llesiant, gan gynnwys aelwyd lle y mae un person o dan 18 oed yn byw ar ei ben ei hun, ac aelwyd arall);
- (c) dim ond mewn perthynas â gweithgaredd wedi ei drefnu yn yr awyr agored er datblygiad neu lesiant plant (er enghraifft, mewn clybiau a ddarperir ar gyfer plant yn ystod gwyliau'r ysgol) y caniateir ymgynnull yn yr awyr agored mewn grwpiau o fwy na 6 o bobl (ac â phersonau o fwy na 2 aelwyd) ar gyfer gweithgaredd wedi ei drefnu;
- (d) ni chaiff unrhyw berson sy'n byw y tu allan i Gymru ddod i Gymru neu aros yng Nghymru heb esgus rhesymol (ni waeth ble yn union y tu allan i Gymru y mae person yn byw), ac ni chaiff unrhyw berson sy'n byw yng Nghymru ymadael â Chymru heb esgus rhesymol;
- (e) rhaid i bron bob un o'r mangreoedd yr oedd yn ofynnol iddynt fod ar gau i'r cyhoedd yn union cyn i'r Rheoliadau hyn ddod i rym aros ar gau. Yr eithriadau yw—
 - (i) llyfrgelloedd a gwasanaethau archifau;
 - (ii) ardaloedd cyhoeddus yn yr awyr agored mewn mangre lle y mae heneb gofrestredig, ac ardaloedd cyhoeddus yn yr awyr agored mewn parc neu ardd sydd wedi ei gofrestru neu ei chofrestru yn y gofrestr o barciau a gerddi o ddiddordeb hanesyddol arbennig yng Nghymru;

Despite formally moving to Alert Level 3, the amendments provide that for a limited period (currently, until the end of the day on 11 April 2021), the restrictions and requirements applying in Wales are those set out in Schedule 3A to the principal Regulations, not those in Schedule 3 (which would otherwise have applied to an Alert Level 3 area). Schedule 3A is inserted into the principal Regulations by these Regulations.

The temporary Alert Level 3 restrictions under Schedule 3A are different in a number of respects from those in Schedule 3. The main differences are that under the temporary restrictions in Schedule 3A—

- (a) up to 6 people (not including children under 11 or carers) from no more than 2 households may gather outdoors, including in private gardens, for any purpose, regardless of whether the people gathering are members of the same extended household;
- (b) only those households that were permitted to form extended households under the Alert Level 4 restrictions that applied in Wales immediately before these Regulations came into force may form extended households under Schedule 3A (i.e. a well-being needs household, including a household in which a person aged under 18 lives alone, and another household);
- (c) gathering outdoors in groups of more than 6 (and with persons from more than 2 households) for an organised activity is only allowed in relation to an outdoor organised activity for the development or well-being of children (for example, in clubs provided for children during school holidays);
- (d) no person living outside Wales may, without reasonable excuse, enter or remain in Wales (regardless of exactly where outside Wales a person is living), and no person living in Wales may, without reasonable excuse, leave Wales;
- (e) nearly all premises that were required to be closed to the public immediately before these Regulations came into force must remain closed, the exceptions being—
 - (i) libraries and archive services;
 - (ii) the public outdoor areas of premises on which a scheduled monument is situated, and the public outdoor areas of a park or garden that is registered in the register of parks and gardens of special historic interest in Wales;

(iii) llety gwyliau neu llety teithio hunangynhwysol: mae hyn yn golygu y caiff safleoedd gwersylla a safleoedd gwyliau agor os pwyntiau dŵr a phwyntiau gwaredu gwastraff yw'r unig gyfleusterau a rennir, a chaiff llety arall (gan gynnwys fflatiau gwyliau a gwestai) agor ar yr amod nad yw gwesteion yn rhannu cyfleusterau nac ardaloedd cymunedol o dan do gydag unrhyw un y tu allan i'w haelwyd na'r ffurf gyfyngedig ar aelwyd estynedig a ddisgrifir ym mharagraff (b).

Mae'r Rheoliadau hefyd yn—

- (a) diwygio Atodlen 5 i'r prif Reoliadau er mwyn gwneud addasiadau dros dro i alluogi gorfodi'r cyfyngiadau yn Atodlen 3A;
- (b) yn gwneud mân ddiwygiadau eraill a diwygiadau canlyniadol, gan gynnwys i Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 5) 2021.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ni luniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

(iii) self-contained holiday or travel accommodation: this means that camping sites and holiday sites may open if the only shared facilities are water points and waste disposal points, and other accommodation (including holiday apartments and hotels) may open provided that guests do not share facilities and indoor communal areas with anyone outside their household or the limited form of extended household described in paragraph (b).

The Regulations also—

- (a) amend Schedule 5 to the principal Regulations to make temporary modifications to enable the enforcement of the restrictions in Schedule 3A;
- (b) make other minor amendments and consequential amendments, including to the Health Protection (Coronavirus Restrictions) (No. 5) (Wales) (Amendment) (No. 5) Regulations 2021.

The Welsh Ministers' Code of Practice on the carrying out of Regulatory Impact Assessments was considered in relation to these Regulations. As a result, a regulatory impact assessment has not been prepared as to the likely cost and benefit of complying with these Regulations.

2021 Rhif 413 (Cy. 133)

2021 No. 413 (W. 133)

**IECHYD Y CYHOEDD,
CYMRU**

PUBLIC HEALTH, WALES

**Rheoliadau Diogelu Iechyd
(Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif
5) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 6)
2021**

**The Health Protection (Coronavirus
Restrictions) (No. 5) (Wales)
(Amendment) (No. 6) Regulations
2021**

Cymeradwywyd gan Senedd Cymru

Approved by Senedd Cymru

Gwnaed am 1.36 p.m. ar 26 Mawrth 2021

Made at 1.36 p.m. on 26 March 2021

*Gosodwyd gerbron Senedd
Cymru am 6.00 p.m. ar 26 Mawrth 2021*

*Laid before Senedd
Cymru at 6.00 p.m. on 26 March 2021*

Yn dod i rym 27 Mawrth 2021

Coming into force 27 March 2021

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 45C(1) a (3)(c), 45F(2) a 45P(2) o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984(1).

The Welsh Ministers make the following Regulations in exercise of the powers conferred by sections 45C(1) and (3)(c), 45F(2) and 45P(2) of the Public Health (Control of Disease) Act 1984(1).

Mae'r Rheoliadau hyn wedi eu gwneud mewn ymateb i'r bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd a berir gan fynychder a lledaeniad coronafeirws syndrom anadlol aciwt difrifol 2 (SARS-CoV-2) yng Nghymru.

These Regulations are made in response to the serious and imminent threat to public health which is posed by the incidence and spread of severe acute respiratory syndrome coronavirus 2 (SARS-CoV-2) in Wales.

Mae Gweinidogion Cymru yn ystyried bod y cyfyngiadau a'r gofynion a osodir gan y Rheoliadau hyn yn gymesur â'r hyn y maent yn ceisio ei gyflawni, sef ymateb iechyd y cyhoedd i'r bygythiad hwnnw.

The Welsh Ministers consider that restrictions and requirements imposed by these Regulations are proportionate to what they seek to achieve, which is a public health response to that threat.

(1) 1984 p. 22. Mewnosodwyd adrannau 45C, 45F a 45P gan adran 129 o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008 (p. 14). Mae'r swyddogaethau o dan yr adrannau hyn wedi eu rhoi i "the appropriate Minister" ("y Gweinidog priodol"). O dan adran 45T(6) o Ddeddf 1984, y Gweinidog priodol, o ran Cymru, yw Gweinidogion Cymru.

(1) 1984 c. 22. Sections 45C, 45F and 45P were inserted by section 129 of the Health and Social Care Act 2008 (c. 14). The functions under these sections are conferred on "the appropriate Minister". Under section 45T(6) of the 1984 Act the appropriate Minister, as respects Wales, is the Welsh Ministers.

Yn unol ag adran 45R o'r Ddeddf honno, oherwydd brys, mae Gweinidogion Cymru o'r farn ei bod yn angenrheidiol gwneud yr offeryn hwn heb fod drafft wedi ei osod gerbron Senedd Cymru ac wedi ei gymeradwyo ganddi drwy benderfyniad.

Enwi a dod i rym

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 6) 2021.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym yn union cyn dechrau'r diwrnod ar 27 Mawrth 2021.

Diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) 2020

2.—(1) Mae Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) 2020(1) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 4, yn lle paragraff (6A) rhodder—

“(6A) Ond, mewn perthynas ag ardal Lefel Rhybudd 3, am y cyfnod sy'n dod i ben ar ddiwedd y diwrnod ar 11 Ebrill 2021, mae Atodlen 3 i'w thrin fel pe bai Atodlen 3A wedi ei rhoi yn ei lle.

(6B) Ac mae Atodlen 5 yn nodi addasiadau dros dro canlyniadol sy'n gymwys mewn perthynas ag ardal Lefel Rhybudd 3 am y cyfnod a bennir ym mharagraff (6A).”

(3) Yn Atodlen 3, hepgorer paragraff 4(2).

(4) Ar ôl Atodlen 3 mewnosoder—

In accordance with section 45R of that Act the Welsh Ministers are of the opinion that, by reason of urgency, it is necessary to make this instrument without a draft having been laid before, and approved by a resolution of, Senedd Cymru.

Title and coming into force

1.—(1) The title of these Regulations is the Health Protection (Coronavirus Restrictions) (No. 5) (Wales) (Amendment) (No. 6) Regulations 2021.

(2) These Regulations come into force immediately before the start of the day on 27 March 2021.

Amendment of the Health Protection (Coronavirus Restrictions) (No. 5) (Wales) Regulations 2020

2.—(1) The Health Protection (Coronavirus Restrictions) (No. 5) (Wales) Regulations 2020(1) are amended as follows.

(2) In regulation 4, for paragraph (6A) substitute—

“(6A) But, in relation to an Alert Level 3 area, for the period ending at the end of the day on 11 April 2021, Schedule 3 is to be treated as if it were replaced by Schedule 3A.

(6B) And Schedule 5 sets out consequential temporary modifications that apply in relation to an Alert Level 3 area for the period specified in paragraph (6A).”

(3) In Schedule 3, omit paragraph 4(2).

(4) After Schedule 3 insert—

(1) O.S. 2020/1609 (Cy. 335) fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2020/1610 (Cy. 336), O.S. 2020/1623 (Cy. 340), O.S. 2020/1645 (Cy. 345), O.S. 2021/20 (Cy. 7), O.S. 2021/46 (Cy. 10), O.S. 2021/57 (Cy. 13), O.S. 2021/66 (Cy. 15), O.S. 2021/95 (Cy. 26), O.S. 2021/103 (Cy. 28), O.S. 2021/172 (Cy. 40), O.S. 2021/210 (Cy. 52) ac O.S. 2021/307 (Cy. 79).

(1) S.I. 2020/1609 (W. 335) as amended by S.I. 2020/1610 (W. 336), S.I. 2020/1623 (W. 340), S.I. 2020/1645 (W. 345), S.I. 2021/20 (W. 7), S.I. 2021/46 (W. 10), S.I. 2021/57 (W. 13), S.I. 2021/66 (W. 15), S.I. 2021/95 (W. 26), S.I. 2021/103 (W. 28), S.I. 2021/172 (W. 40), S.I. 2021/210 (W. 52) and S.I. 2021/307 (W. 79).

“ATODLEN 3A Rheoliad 4(6A)
Cyfyngiadau Lefel Rhybudd 3 Dros
Dro

RHAN 1

Cyfyngiad ar ymgynnull

Cyfyngiad ar gynullïadau mewn anheddau preifat

1.—(1) Ni chaiff unrhyw berson, heb esgus rhesymol, gymryd rhan mewn cynullïad mewn annedd breifat oni bai bod yr holl bersonau sy'n cymryd rhan yn y cynullïad yn aelodau o'r un aelwyd neu'r un aelwyd estynedig.

(2) Ond caiff person gymryd rhan mewn cynullïad o'r fath yn yr awyr agored os nad oes mwy na 6 person o ddim mwy na 2 aelwyd yn y cynullïad.

(3) Wrth bennu, at ddibenion is-baragraff (2), nifer y personau sy'n cymryd rhan mewn cynullïad, nid yw'r canlynol i'w hystyried—

- (a) unrhyw blant o dan 11 oed, neu
- (b) gofalwr person sy'n cymryd rhan yn y cynullïad.

(4) At ddibenion is-baragraff (1), mae gan berson esgus rhesymol—

- (a) os yw'r person yn cymryd rhan yn y cynullïad at ddiben sy'n rhesymol angenrheidiol ac nad oes dewis arall sy'n rhesymol ymarferol, neu
- (b) os yw un o'r amgylchiadau yn is-baragraff (6) yn gymwys.

(5) Mae enghreifftiau o'r dibenion y gall fod yn rhesymol angenrheidiol i berson gymryd rhan mewn cynullïad atynt yn cynnwys—

- (a) cael neu ddarparu cynhorthwy meddygol, neu gael gafael ar wasanaethau milfeddygol;
- (b) gweithio neu ddarparu gwasanaethau gwirfoddol neu elusennol;
- (c) cyflawni rhwymedigaeth gyfreithiol;

“SCHEDULE 3A Regulation 4(6A)
Temporary Alert Level 3
Restrictions

PART 1

Restriction on gathering

Restriction on gatherings in private dwellings

1.—(1) No person may, without a reasonable excuse, participate in a gathering in a private dwelling unless all the persons participating in the gathering are members of the same household or extended household.

(2) But a person may participate in such a gathering outdoors if the gathering consists of no more than 6 persons from no more than 2 households.

(3) In determining, for the purposes of subparagraph (2), the number of persons participating in a gathering no account is to be taken of—

- (a) any children under the age of 11, or
- (b) the carer of a person who is participating in the gathering.

(4) For the purposes of subparagraph (1), a person has a reasonable excuse if—

- (a) the person is participating in the gathering for a purpose that is reasonably necessary and there is no reasonably practicable alternative, or
- (b) one of the circumstances in subparagraph (6) applies.

(5) Examples of purposes for which it may be reasonably necessary for a person to participate in a gathering include—

- (a) obtaining or providing medical assistance, or accessing veterinary services;
- (b) working or providing voluntary or charitable services;
- (c) meeting a legal obligation;

- (d) darparu, cael neu gael gafael ar ofal neu gynhorthwy, gan gynnwys gofal plant neu ofal personol perthnasol o fewn ystyr “relevant personal care” ym mharagraff 7(3B) o Atodlen 4 i Ddeddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006(1), pan fo’r person sy’n cael y gofal yn berson hyglwyf;
 - (e) mewn perthynas â phlant nad ydynt yn byw ar yr un aelwyd â’u rhieni, neu un o’u rhieni, parhau â threfniadau presennol ar gyfer gweld rhieni a phlant, a chyswllt rhyngddynt, ac at ddibenion y paragraff hwn, mae “rhiant” yn cynnwys person nad yw’n rhiant i’r plentyn, ond sydd â chyfrifoldeb rhiant dros y plentyn neu sydd â gofal drosto;
 - (f) symud cartref;
 - (g) ymgymryd â gweithgareddau mewn cysylltiad â phrynu, gwerthu, gosod neu rentu eiddo preswyl;
 - (h) cael gafael ar wasanaethau addysgol neu gael y gwasanaethau hynny.
- (6) Yr amgylchiadau y cyfeirir atynt yn is-baragraff (4)(b) yw bod y person yn—
- (a) darparu neu’n cael cynhorthwy brys;
 - (b) osgoi salwch, anaf neu risg arall o niwed;
 - (c) cymryd rhan mewn cynulliad o ddim mwy na 4 o bobl pan fo’r holl bersonau yn y cynulliad—
 - (i) yn byw yn yr un fangre, a
 - (ii) yn rhannu cyfleusterau toiled, ymolchi, bwyta neu goginio gyda’i gilydd.
- (7) Er gwaethaf is-baragraffau (2) a (5)(b), ni chaiff unrhyw berson gymryd rhan mewn cynulliad mewn annedd breifat at ddibenion darbwyllo person i bleidleisio neu i beidio â phleidleisio mewn modd penodol mewn etholiad.
- (8) Nid yw’r paragraff hwn yn gymwys i berson sy’n ddigartref.

- (d) providing, receiving or accessing care or assistance, including childcare or relevant personal care within the meaning of paragraph 7(3B) of Schedule 4 to the Safeguarding of Vulnerable Groups Act 2006(1), where the person receiving the care is a vulnerable person;
 - (e) in relation to children who do not live in the same household as their parents, or one of their parents, continuing existing arrangements for access to, and contact between, parents and children, and for the purposes of this paragraph, “parent” includes a person who is not a parent of the child, but who has parental responsibility for, or who has care of, the child;
 - (f) moving home;
 - (g) undertaking activities in connection with the purchase, sale, letting or rental of residential property;
 - (h) accessing or receiving educational services.
- (6) The circumstances referred to in sub-paragraph (4)(b) are that the person is—
- (a) providing or receiving emergency assistance;
 - (b) avoiding illness, injury or other risk of harm;
 - (c) participating in a gathering of no more than 4 people where all the persons in the gathering—
 - (i) live in the same premises, and
 - (ii) share toilet, washing, dining or cooking facilities with each other.
- (7) Despite sub-paragraphs (2) and (5)(b), no person may participate in a gathering in a private dwelling for the purposes of persuading or dissuading a person to vote in a particular manner in an election.
- (8) This paragraph does not apply to a person who is homeless.

(1) 2006 p. 47. Mewnsoodwyd paragraff 7(3B) gan adran 66(2) o Ddeddf Diogelu Rhyddidau 2012 (p. 9).

(1) 2006 c. 47. Paragraph 7(3B) was inserted by section 66(2) of the Protection of Freedoms Act 2012 (c. 9).

Cyfyngiad ar gynullïadau mewn llety gwylïau neu lety teithio

2.—(1) Ni chaiff unrhyw berson, heb esgus rhesymol, gymryd rhan mewn cynullïad sy'n digwydd mewn llety gwylïau neu lety teithio oni bai bod yr holl bersonau sy'n cymryd rhan yn y cynullïad yn aelodau o'r un aelwyd neu'r un aelwyd estynedig.

(2) At ddibenion is-baragraff (1), mae gan berson esgus rhesymol—

- (a) os yw'r person yn cymryd rhan yn y cynullïad at ddiben sy'n rhesymol angenrheidiol ac nad oes dewis arall sy'n rhesymol ymarferol, neu
- (b) os yw un o'r amgylchiadau yn is-baragraff (4) yn gymwys.

(3) Mae enghreifftiau o'r dibenion y gall fod yn rhesymol angenrheidiol i berson gymryd rhan mewn cynullïad atynt yn cynnwys—

- (a) cael neu ddarparu cynhorthwy meddygol, neu gael gafael ar wasanaethau milfeddygol;
- (b) gweithio neu ddarparu gwasanaethau gwirfoddol neu elusennol;
- (c) cyflawni rhwymedigaeth gyfreithiol;
- (d) darparu, cael neu gael gafael ar ofal neu gynhorthwy, gan gynnwys gofal plant neu ofal personol perthnasol o fewn ystyr "relevant personal care" ym mharagraff 7(3B) o Atodlen 4 i Ddeddf Diogelu Grwpïau Hyglwyf 2006, pan fo'r person sy'n cael y gofal yn berson hyglwyf;
- (e) mewn perthynas â phlant nad ydynt yn byw ar yr un aelwyd â'u rhieni, neu un o'u rhieni, parhau â threfniadau presennol ar gyfer gweld rhieni a phlant, a chyswllt rhyngddynt, ac at ddibenion y paragraff hwn, mae "rhiant" yn cynnwys person nad yw'n rhiant i'r plentyn, ond sydd â chyfrifoldeb rhiant dros y plentyn neu sydd â gofal drosto.

(4) Yr amgylchiadau y cyfeirir atynt yn is-baragraff (2)(b) yw bod y person yn—

- (a) darparu neu'n cael cynhorthwy brys;
- (b) osgoi salwch, anaf neu risg arall o niwed.

(5) Nid yw'r paragraff hwn yn gymwys i berson sy'n ddigartref.

Restriction on gatherings in holiday or travel accommodation

2.—(1) No person may, without reasonable excuse, participate in a gathering which takes place in holiday or travel accommodation unless all the persons participating in the gathering are members of the same household or extended household.

(2) For the purposes of sub-paragraph (1), a person has a reasonable excuse if—

- (a) the person is participating in the gathering for a purpose that is reasonably necessary and there is no reasonably practicable alternative, or
- (b) one of the circumstances in sub-paragraph (4) applies.

(3) Examples of purposes for which it may be reasonably necessary for a person to participate in a gathering include—

- (a) obtaining or providing medical assistance, or accessing veterinary services;
- (b) working or providing voluntary or charitable services;
- (c) meeting a legal obligation;
- (d) providing, receiving or accessing care or assistance, including childcare or relevant personal care within the meaning of paragraph 7(3B) of Schedule 4 to the Safeguarding of Vulnerable Groups Act 2006, where the person receiving the care is a vulnerable person;
- (e) in relation to children who do not live in the same household as their parents, or one of their parents, continuing existing arrangements for access to, and contact between, parents and children, and for the purposes of this paragraph, "parent" includes a person who is not a parent of the child, but who has parental responsibility for, or who has care of, the child.

(4) The circumstances referred to in sub-paragraph (2)(b) are that the person is—

- (a) providing or receiving emergency assistance;
- (b) avoiding illness, injury or other risk of harm.

(5) This paragraph does not apply to a person who is homeless.

Cyfyngiad ar gynulladau mewn mannau cyhoeddus

3.—(1) Ni chaiff unrhyw berson, heb esgus rhesymol, gymryd rhan mewn cynulliad sy'n digwydd mewn mangre nad yw paragraff 1 na 2 yn gymwys iddi oni bai bod yr holl bersonau sy'n cymryd rhan yn y cynulliad yn aelodau o'r un aelwyd.

(2) Ond caiff person gymryd rhan mewn cynulliad o'r fath yn yr awyr agored—

- (a) os yw'r holl bersonau sy'n cymryd rhan yn y cynulliad yn aelodau o'r un aelwyd estynedig, neu
- (b) os nad oes mwy na 6 person o ddim mwy na 2 aelwyd yn y cynulliad.

(3) Wrth bennu, at ddibenion is-baragraff (2)(b), nifer y personau sy'n cymryd rhan mewn cynulliad, nid yw'r canlynol i'w hystyried—

- (a) unrhyw blant o dan 11 oed, neu
- (b) gofalwr person sy'n cymryd rhan yn y cynulliad.

(4) At ddibenion is-baragraff (1), mae gan berson esgus rhesymol—

- (a) os yw'r person yn cymryd rhan yn y cynulliad at ddiben sy'n rhesymol angenrheidiol ac nad oes dewis arall sy'n rhesymol ymarferol, neu
- (b) os yw un o'r amgylchiadau yn is-baragraff (6) yn gymwys.

(5) Mae enghreifftiau o'r dibenion y gall fod yn rhesymol angenrheidiol i berson gymryd rhan mewn cynulliad atynt yn cynnwys—

- (a) cael neu ddarparu cynhorthwy meddygol, neu gael gafael ar wasanaethau milfeddygol;
- (b) gweithio neu ddarparu gwasanaethau gwirfoddol neu elusennol;
- (c) cyflawni rhwymedigaeth gyfreithiol, gan gynnwys mynd i'r llys neu fodloni amodau mechnïaeth, neu gymryd rhan mewn achos cyfreithiol;
- (d) darparu, cael neu gael gafael ar ofal neu gynhorthwy, gan gynnwys gofal plant neu ofal personol perthnasol o fewn ystyr "relevant personal care" ym mharagraff 7(3B) o Atodlen 4 i Ddeddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006, pan fo'r person sy'n cael y gofal yn berson hyglwyf;

Restriction on gatherings in public places

3.—(1) No person may, without a reasonable excuse, participate in a gathering which takes place in premises to which neither paragraph 1 nor 2 applies unless all the persons participating in the gathering are members of the same household.

(2) But a person may participate in such a gathering outdoors if—

- (a) all the persons participating in the gathering are members of the same extended household, or
- (b) the gathering consists of no more than 6 persons from no more than 2 households.

(3) In determining, for the purposes of sub-paragraph (2)(b), the number of persons participating in a gathering no account is to be taken of—

- (a) any children under the age of 11, or
- (b) the carer of a person who is participating in the gathering.

(4) For the purposes of sub-paragraph (1), a person has a reasonable excuse if—

- (a) the person is participating in the gathering for a purpose that is reasonably necessary and there is no reasonably practicable alternative, or
- (b) one of the circumstances in sub-paragraph (6) applies.

(5) Examples of purposes for which it may be reasonably necessary for a person to participate in a gathering include—

- (a) obtaining or providing medical assistance, or accessing veterinary services;
- (b) working or providing voluntary or charitable services;
- (c) meeting a legal obligation, including attending court or satisfying bail conditions, or to participate in legal proceedings;
- (d) providing, receiving or accessing care or assistance, including childcare or relevant personal care within the meaning of paragraph 7(3B) of Schedule 4 to the Safeguarding of Vulnerable Groups Act 2006, where the person receiving the care is a vulnerable person;

- (e) mewn perthynas â phlant nad ydynt yn byw ar yr un aelwyd â'u rhieni, neu un o'u rhieni, parhau â threfniadau presennol ar gyfer gweld rhieni a phlant, a chyswllt rhyngddynt, ac at ddibenion y paragraff hwn, mae "rhiant" yn cynnwys person nad yw'n rhiant i'r plentyn, ond sydd â chyfrifoldeb rhiant dros y plentyn neu sydd â gofal drosto;
- (f) symud cartref;
- (g) ymgymryd â gweithgareddau mewn cysylltiad â phrynu, gwerthu, gosod neu rentu eiddo preswyl;
- (h) cael gafael ar wasanaethau cyhoeddus neu gael y gwasanaethau hynny;
- (i) cael gafael ar wasanaethau addysgol neu gael y gwasanaethau hynny;
- (j) ymweld â pherson sy'n preswyllo mewn cartref gofal, â chaniatâd darparwr y gwasanaeth.
- (6) Yr amgylchiadau y cyfeirir atynt yn is-baragraff (4)(b) yw bod y person yn—
- (a) darparu neu'n cael cynhorthwy brys;
- (b) osgoi salwch, anaf neu risg arall o niwed;
- (c) mynd i weinyddiad priodas, ffurfiadartneriaeth sifil neu seremoni briodas arall—
- (i) fel parti i'r briodas, y bartneriaeth sifil neu'r briodas arall,
- (ii) os caiff ei wahodd i fynd i'r briodas, y bartneriaeth sifil neu'r briodas arall, neu
- (iii) fel gofalwr person sy'n mynd i'r briodas, y bartneriaeth sifil neu'r briodas arall;
- (d) mynd i angladd—
- (i) fel person sy'n gyfrifol am drefnu'r angladd,
- (ii) os caiff ei wahodd gan berson sy'n gyfrifol am drefnu'r angladd, neu
- (iii) fel gofalwr person sy'n mynd i'r angladd;
- (e) mynd i addoldy;
- (f) athletwr elit ac yn hyfforddi neu'n cystadlu;
- (g) darparu hyfforddiant neu gymorth arall i athletwr elit, neu'n darparu cymorth mewn digwyddiad chwaraeon elit;
- (e) in relation to children who do not live in the same household as their parents, or one of their parents, continuing existing arrangements for access to, and contact between, parents and children, and for the purposes of this paragraph, "parent" includes a person who is not a parent of the child, but who has parental responsibility for, or who has care of, the child;
- (f) moving home;
- (g) undertaking activities in connection with the purchase, sale, letting or rental of residential property;
- (h) accessing or receiving public services;
- (i) accessing or receiving educational services;
- (j) visiting a person who is resident in a care home, with the permission of the service provider.
- (6) The circumstances referred to in subparagraph (4)(b) are that the person is—
- (a) providing or receiving emergency assistance;
- (b) avoiding illness, injury or other risk of harm;
- (c) attending a solemnisation of a marriage, formation of a civil partnership or alternative wedding ceremony—
- (i) as a party to the marriage, civil partnership or alternative wedding,
- (ii) if invited to attend, or
- (iii) as the carer of a person attending;
- (d) attending a funeral—
- (i) as a person responsible for arranging the funeral,
- (ii) if invited by a person responsible for arranging the funeral, or
- (iii) as the carer of a person attending;
- (e) attending a place of worship;
- (f) an elite athlete and is training or competing;
- (g) providing coaching or other support to an elite athlete, or providing support at an elite sporting event;

- (h) cymryd rhan mewn gweithgaredd wedi ei drefnu yn yr awyr agored, neu'n hwyluso'r gweithgaredd hwnnw, er datblygiad neu lesiant personau a oedd o dan 18 oed ar 31 Awst 2020 (gan gynnwys chwaraeon, cerddoriaeth a gweithgareddau hamdden eraill megis y rheini a ddarperir ar gyfer plant y tu allan i oriau'r ysgol ac yn ystod gwyliau'r ysgol).

(7) Er gwaethaf is-baragraffau (2)(b) a (5)(b), ni chaiff unrhyw berson gymryd rhan mewn cynulliad at ddibenion darbwylo person i bleidleisio neu i beidio â phleidleisio mewn modd penodol mewn etholiad oni bai bod y person yn cymryd rhan mewn darllediad heb gynulleidfa (pa un ai dros y rhyngwyd neu fel rhan o ddarllediad radio neu deledu).

(8) Nid yw'r paragraff hwn yn gymwys i berson sy'n ddigartref.

Aelwydydd estynedig

4.—(1) Caiff aelwyd anghenion llesiant ac aelwyd arall gytuno i gael eu trin fel aelwyd estynedig.

(2) Er mwyn cytuno i gael eu trin fel aelwyd estynedig, rhaid i holl aelodau'r aelwydydd gytuno.

(3) Ni chaiff aelwyd ond cytuno i gael ei thrin fel pe bai mewn 1 aelwyd estynedig ar unrhyw un adeg.

(4) Pan fo aelwydydd wedi cytuno i gael eu trin fel aelwyd estynedig o dan baragraff 3 o Atodlen 4, mae'r aelwydydd hynny i'w trin fel pe baent wedi cytuno i gael eu trin fel aelwyd estynedig o dan y paragraff hwn.

(5) Mae aelwyd yn peidio â cael ei thrin fel pe bai'n rhan o aelwyd estynedig os yw unrhyw aelod o'r aelwyd yn peidio â chytuno i gael ei drin fel pe bai'n rhan o'r aelwyd estynedig.

(6) Mae is-baragraff (7) yn gymwys—

- (a) pan fo person a fyddai'n aelod o aelwyd estynedig, neu sy'n aelod o aelwyd estynedig, yn blentyn, a
- (b) pan fo person ("P") a chanddo gyfrifoldeb rhiant dros y plentyn yn aelod o aelwyd y plentyn.

(7) Pan fo'r is-baragraff hwn yn gymwys—

- (a) mae'r cytundeb sy'n ofynnol gan is-baragraff (2) i'w roi gan P (ac nid gan y plentyn), a

- (h) participating in or facilitating an outdoor organised activity for the development or well-being of persons who were aged under 18 on 31 August 2020 (including sports, music and other recreational activities such as those provided for children outside of school hours and during school holidays).

(7) Despite sub-paragraphs (2)(b) and (5)(b), no person may participate in a gathering for the purposes of persuading or dissuading a person to vote in a particular manner in an election unless the person is participating in a broadcast without an audience (whether over the internet or as part of a radio or television broadcast).

(8) This paragraph does not apply to a person who is homeless.

Extended households

4.—(1) A well-being needs household and another household may agree to be treated as an extended household.

(2) To agree to be treated as an extended household, all members of the households must agree.

(3) A household may only agree to be treated as being in 1 extended household at any one time.

(4) Where households have agreed to be treated as an extended household under paragraph 3 of Schedule 4, those households are to be treated as having agreed to be treated as an extended household under this paragraph.

(5) A household ceases to be treated as part of an extended household if any member of the household ceases to agree to be treated as part of the extended household.

(6) Sub-paragraph (7) applies where—

- (a) a person who would be, or is, a member of an extended household is a child, and
- (b) a person who has parental responsibility for the child ("P") is a member of the child's household.

(7) Where this sub-paragraph applies—

- (a) the agreement required by sub-paragraph (2) is to be given by P (and not the child), and

- (b) mae aelwyd yn peidio â chael ei thrin fel pe bai'n rhan o aelwyd estynedig yn unol ag is-baragraff (5) os yw P yn peidio â chytuno i gael ei drin fel pe bai'n rhan o'r aelwyd estynedig (pa un a yw'r plentyn yn peidio â chytuno hefyd ai peidio).

(8) Os yw aelwyd yn peidio â chael ei thrin fel pe bai'n rhan o aelwyd estynedig, ni chaiff yr aelwyd gytuno i gael ei thrin fel pe bai'n rhan o aelwyd estynedig gydag unrhyw aelwyd arall oni bai bod cyfnod o 10 niwrnod o leiaf wedi dod i ben ers i unrhyw aelod o'r aelwyd gymryd rhan ddiwethaf mewn cynulliad gydag unrhyw aelod o aelwyd arall gan ddibynnu ar gael ei drin fel pe bai'n rhan o aelwyd estynedig gyda'r aelwyd honno.

(9) Yn yr Atodlen hon, mae cyfeiriadau at aelwyd estynedig yn gyfeiriadau at aelwyd estynedig a ffurfir o dan neu yn rhinwedd y paragraff hwn.

(10) Yn y paragraff hwn, ystyr "aelwyd anghenion llesiant" yw—

- (a) aelwyd un oedolyn;
- (b) aelwyd ag 1 neu ragor o blant a dim oedolion;
- (c) aelwyd ag—
 - (i) 2 neu ragor o oedolion,
 - (ii) 1 neu ragor o blant o dan 1 oed, a
- (iii) unrhyw nifer o blant eraill.

RHAN 2

Cyfyngiadau ar drefnu digwyddiadau

Gwaharddiad ar drefnu digwyddiadau

5.—(1) Ni chaiff unrhyw berson, heb esgus rhesymol, ymwneud â threfnu—

- (a) digwyddiad a gynhelir yn gyfan gwbl neu'n bennaf o dan do lle y mae mwy na 15 o bobl yn bresennol, neu
- (b) digwyddiad a gynhelir yn gyfan gwbl neu'n bennaf yn yr awyr agored lle y mae mwy na 30 o bobl yn bresennol,

heb gyfrif personau o dan 11 oed na phersonau sy'n gweithio yn y digwyddiad neu sy'n darparu gwasanaethau gwirfoddol ynddo.

- (b) a household ceases to be treated as part of an extended household in accordance with sub-paragraph (5) if P ceases to agree to be treated as part of the extended household (whether or not the child also ceases to agree).

(8) If a household ceases to be treated as part of an extended household, the household may not agree to be treated as part of an extended household with any other household unless a period of at least 10 days has expired since any member of the household last participated in a gathering with any member of another household in reliance on being treated as part of an extended household with that household.

(9) In this Schedule, references to an extended household are references to an extended household formed under or by virtue of this paragraph.

(10) In this paragraph, "well-being needs household" means—

- (a) a single adult household;
- (b) a household comprising of 1 or more children and no adults;
- (c) a household comprising of—
 - (i) 2 or more adults,
 - (ii) 1 or more children under the age of 1, and
 - (iii) any number of other children.

PART 2

Restrictions on organising events

Prohibition on organising events

5.—(1) No person may, without a reasonable excuse, be involved in organising—

- (a) an event held wholly or mainly indoors at which more than 15 people are in attendance, or
- (b) an event held wholly or mainly outdoors at which more than 30 people are in attendance,

not counting persons under the age of 11 or persons working, or providing voluntary services, at the event.

(2) At ddibenion is-baragraff (1)—

- (a) nid yw person yn ymwneud â threfnu digwyddiad os nad yw'r person ond yn ymwneud â'r digwyddiad drwy fynd iddo;
- (b) mae esgus rhesymol yn cynnwys pan fo'r person wedi cymryd pob mesur rhesymol i sicrhau nad oes mwy na 15 neu 30 o bobl yn bresennol, yn ôl y digwydd;
- (c) nid yw'r canlynol i'w trin yn ddigwyddiadau—
 - (i) arddangosiad ffilm mewn sinema o sedd cerbyd;
 - (ii) perfformiad mewn theatr o sedd cerbyd;
 - (iii) marchnad;
 - (iv) gwasanaeth crefyddol;
 - (v) digwyddiad chwaraeon elit os athletwyr elit a phersonau sy'n gweithio yn y digwyddiad neu sy'n darparu gwasanaethau gwirfoddol ynddo yw'r unig bobl sy'n bresennol.

RHAN 3

Cyfyngiadau ar deithio

Cyfyngiad ar deithio i ardal Lefel Rhybudd 3 ac o ardal Lefel Rhybudd 3

6.—(1) Ni chaiff unrhyw berson sy'n byw y tu allan i ardal Lefel Rhybudd 3 fynd i ardal Lefel Rhybudd 3 neu aros mewn ardal Lefel Rhybudd 3 heb esgus rhesymol.

(2) Ni chaiff unrhyw berson sy'n byw mewn ardal Lefel Rhybudd 3 ymadael â'r ardal, heb esgus rhesymol, at ddibenion mynd i fan nad yw mewn ardal Lefel Rhybudd 3 neu aros ynddo.

(3) At ddibenion is-baragraffau (1) a (2), mae gan berson esgus rhesymol—

- (a) os yw'r person yn mynd i'r ardal neu'n ymadael â'r ardal at ddiben sy'n rhesymol angenrheidiol ac nad oes dewis arall sy'n rhesymol ymarferol;
- (b) os yw un o'r amgylchiadau yn is-baragraff (5) yn gymwys.

(4) Mae enghreifftiau o'r dibenion y gall fod yn rhesymol ymarferol i berson fynd i'r ardal neu ymadael â'r ardal atynt yn cynnwys—

(2) For the purposes of sub-paragraph (1)—

- (a) a person is not involved in organising an event if the person's only involvement is attending it;
- (b) a reasonable excuse includes where the person has taken all reasonable measures to ensure that no more than 15 or 30 people are in attendance, as the case may be;
- (c) the following are not to be treated as events—
 - (i) the showing of a film at a drive-in cinema;
 - (ii) a performance at a drive-in theatre;
 - (iii) a market;
 - (iv) a religious service;
 - (v) an elite sporting event at which the only people present are elite athletes and persons working or providing voluntary services at the event.

PART 3

Restrictions on travelling

Restriction on travel to and from Alert Level 3 area

6.—(1) No person living outside an Alert Level 3 area may, without a reasonable excuse, enter or remain in an Alert Level 3 Area.

(2) No person living in an Alert Level 3 area may, without a reasonable excuse, leave the area for the purposes of entering or remaining in a place that is not in an Alert Level 3 area.

(3) For the purposes of sub-paragraphs (1) and (2), a person has a reasonable excuse if—

- (a) the person enters or leaves the area for a purpose that is reasonably necessary and there is no reasonably practicable alternative;
- (b) one of the circumstances in sub-paragraph (5) applies.

(4) Examples of purposes for which it may be reasonably necessary for a person to enter or leave the area include—

- (a) cael neu ddarparu cynhorthwy meddygol, neu gael gafael ar wasanaethau milfeddygol;
 - (b) osgoi salwch, anaf neu risg arall o niwed;
 - (c) gweithio neu ddarparu gwasanaethau gwirfoddol neu elusennol;
 - (d) cyflawni rhwymedigaeth gyfreithiol, gan gynnwys mynd i'r llys neu fodloni amodau mechnïaeth, neu gymryd rhan mewn achos cyfreithiol;
 - (e) darparu, cael neu gael gafael ar ofal neu gynhorthwy, gan gynnwys gofal plant neu ofal personol perthnasol o fewn ystyr "relevant personal care" ym mharagraff 7(3B) o Atodlen 4 i Ddeddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006, pan fo'r person sy'n cael y gofal yn berson hyglwyf;
 - (f) mewn perthynas â phlant nad ydynt yn byw ar yr un aelwyd â'u rhieni, neu un o'u rhieni, parhau â threfniadau presennol ar gyfer gweld rhieni a phlant, a chyswllt rhyngddynt, ac at ddibenion y paragraff hwn, mae "rhiant" yn cynnwys person nad yw'n rhiant i'r plentyn, ond sydd â chyfrifoldeb rhiant dros y plentyn neu sydd â gofal drosto;
 - (g) symud cartref;
 - (h) ymgymryd â gweithgareddau mewn cysylltiad â phrynu, gwerthu, gosod neu rentu eiddo preswyl;
 - (i) cael gafael ar wasanaethau cyhoeddus neu gael y gwasanaethau hynny;
 - (j) cael gafael ar wasanaethau addysgol neu gael y gwasanaethau hynny;
 - (k) cael—
 - (i) bwyd a chyflenwadau meddygol ar gyfer y rheini ar yr un aelwyd (gan gynnwys anifeiliaid ar yr aelwyd) neu ar gyfer personau hyglwyf;
 - (ii) cyflenwadau ar gyfer cynnal, cynnal a chadw a gweithrediad hanfodol yr aelwyd, neu aelwyd person hyglwyf;
 - (l) cael arian oddi wrth unrhyw fusnes neu wasanaeth a restrir ym mharagraff 39(g) o Atodlen 7 neu adneuo arian gydag unrhyw fusnes neu wasanaeth o'r fath;
- (a) obtaining or providing medical assistance, or accessing veterinary services;
 - (b) avoiding illness, injury or other risk of harm;
 - (c) working or providing voluntary or charitable services;
 - (d) meeting a legal obligation, including attending court or satisfying bail conditions, or participating in legal proceedings;
 - (e) providing, receiving or accessing care or assistance, including childcare or relevant personal care within the meaning of paragraph 7(3B) of Schedule 4 to the Safeguarding of Vulnerable Groups Act 2006, where the person receiving the care is a vulnerable person;
 - (f) in relation to children who do not live in the same household as their parents, or one of their parents, continuing existing arrangements for access to, and contact between, parents and children, and for the purposes of this paragraph, "parent" includes a person who is not a parent of the child, but who has parental responsibility for, or who has care of, the child;
 - (g) moving home;
 - (h) undertaking activities in connection with the purchase, sale, letting or rental of residential property;
 - (i) accessing or receiving public services;
 - (j) accessing or receiving educational services;
 - (k) obtaining—
 - (i) food and medical supplies for those in the same household (including animals in the household) or for vulnerable persons;
 - (ii) supplies for the essential upkeep, maintenance and functioning of the household, or the household of a vulnerable person;
 - (l) obtaining money from or depositing money with any business or service listed in paragraph 39(g) of Schedule 7;

- (m) cymryd rhan mewn gweithgaredd wedi ei drefnu yn yr awyr agored, neu hwyluso'r gweithgaredd hwnnw, er datblygiad neu lesiant personau a oedd o dan 18 oed ar 31 Awst 2020 (gan gynnwys chwaraeon, cerddoriaeth a gweithgareddau hamdden eraill megis y rheini a ddarperir ar gyfer plant y tu allan i oriau'r ysgol ac yn ystod gwyliau'r ysgol).
- (5) Yr amgylchiadau y cyfeirir atynt yn is-baragraff (3)(b) yw bod y person yn—
- (a) darparu neu'n cael cynhorthwy brys;
- (b) mynd i weinyddiad priodas, ffurfiadartneriaeth sifil neu seremoni briodas arall—
- (i) fel parti i'r briodas, y bartneriaeth sifil neu'r briodas arall,
- (ii) os caiff ei wahodd i fynd i'r briodas, y bartneriaeth sifil neu'r briodas arall, neu
- (iii) fel gofalwr person sy'n mynd i'r briodas, y bartneriaeth sifil neu'r briodas arall;
- (c) mynd i angladd—
- (i) fel person sy'n gyfrifol am drefnu'r angladd,
- (ii) os caiff ei wahodd gan berson sy'n gyfrifol am drefnu'r angladd, neu
- (iii) fel gofalwr person sy'n mynd i'r angladd;
- (d) athletwr elit ac sy'n teithio at ddibenion hyfforddi neu gystadlu;
- (e) darparu hyfforddiant neu gymorth arall i athletwr elit, neu'n darparu cymorth mewn—
- (i) digwyddiad chwaraeon elit, neu
- (ii) digwyddiad chwaraeon sy'n digwydd y tu allan i Gymru;
- (f) teithio er mwyn pleidleisio mewn etholiad;
- (g) teithio ar daith sydd—
- (i) mewn perthynas â'r cyfyngiad yn is-baragraff (1), yn dechrau ac yn gorffen y tu allan i'r ardal, neu
- (ii) mewn perthynas â'r cyfyngiad yn is-baragraff (2), yn gorffen mewn ardal nad yw'r person wedi ei wahardd rhag mynd iddi neu aros ynddi o dan yr is-baragraff hwnnw,
- (m) participating in or facilitating an outdoor organised activity for the development or well-being of persons who were aged under 18 on 31 August 2020 (including sports, music and other recreational activities such as those provided for children outside of school hours and during school holidays).
- (5) The circumstances referred to in subparagraph (3)(b) are that the person is—
- (a) providing or receiving emergency assistance;
- (b) attending a solemnization of a marriage, formation of a civil partnership or alternative wedding ceremony—
- (i) as a party to the marriage, civil partnership or wedding,
- (ii) if invited to attend, or
- (iii) as the carer of a person attending;
- (c) attending a funeral—
- (i) as a person responsible for arranging the funeral,
- (ii) if invited by a person responsible for arranging the funeral, or
- (iii) as the carer of a person attending;
- (d) an elite athlete and is travelling for the purposes of training or competition;
- (e) providing coaching or other support to an elite athlete, or providing support at—
- (i) an elite sporting event, or
- (ii) a sporting event taking place outside Wales;
- (f) travelling to vote in an election;
- (g) travelling on a journey which—
- (i) in relation to the restriction in subparagraph (1), begins and ends outside the area, or
- (ii) in relation to the restriction in subparagraph (2), ends in an area which the person is not prohibited from entering or remaining in under that subparagraph,

ar yr amod bod y person yn cymryd pob mesur sy'n rhesymol ymarferol i stopio cyn lleied ag y bo modd yn ystod y daith;

- (h) teithio i gymryd rhan mewn cynulliad gydag aelwyd estynedig y person yn unol ag unrhyw gyfyngiadau ar gynulladau sy'n gymwys lle y mae'r cynulliad yn digwydd.

RHAN 4

Cyfyngiadau ar fusnesau a gwasanaethau penodol

PENNOD 1

Busnesau a gwasanaethau y mae'n ofynnol cau eu mangreoedd ond y caniateir mynediad cyfyngedig iddynt

Cau busnesau bwyd a diod

7.—(1) O ran person sy'n gyfrifol am gynnal busnes a restrir ym mharagraffau 12 i 14 (busnesau bwyd a diod)—

- (a) rhaid iddo gau i aelodau'r cyhoedd unrhyw fangre a weithredir fel rhan o'r busnes, a
- (b) ni chaiff gynnal busnes yn y fangre honno ac eithrio yn unol â'r paragraff hwn.

(2) Nid yw is-baragraff (1) yn atal—

- (a) defnyddio mangre ar gyfer—
- (i) gwerthu bwyd a diod i'w fwyta neu i'w hyfed oddi ar y fangre, neu
- (ii) gwasanaethau sy'n darparu bwyd neu ddiod i bobl ddigartref;
- (b) darparu gwasanaeth ystafell mewn gwesty neu lety arall (pan fo'r gwesty neu'r llety arall yn parhau i weithredu yn unol â'r eithriadau a ganiateir gan baragraff 8);
- (c) ffreutur yn y gweithle rhag bod ar agor pan na fo dewis ymarferol arall i staff yn y gweithle hwnnw gael bwyd neu ddiod;
- (d) gwneud gwaith cynnal a chadw ac atgyweirio neu waith arall i sicrhau bod mangre yn addas i'w defnyddio pan nad yw is-baragraff (1) yn gymwys i'r fangre mwyach.

provided that the person takes all reasonably practicable measures to minimise any stops during the journey;

- (h) travelling to participate in a gathering with the person's extended household in accordance with any restrictions on gatherings applicable where the gathering takes place.

PART 4

Restrictions on certain businesses and services

CHAPTER 1

Businesses or services whose premises are required to be closed but to which limited access may be allowed

Closure of food and drink businesses

7.—(1) A person responsible for carrying on a business which is listed in paragraphs 12 to 14 (food and drink businesses) must—

- (a) close to members of the public any premises operated as part of the business, and
- (b) not carry on business at such premises otherwise than in accordance with this paragraph.

(2) Sub-paragraph (1) does not prevent—

- (a) the use of premises for—
- (i) the sale of food and drink for consumption off the premises, or
- (ii) services providing food or drink to homeless people;
- (b) the provision of room service at a hotel or other accommodation (where the hotel or other accommodation continues to operate in accordance with the exceptions allowed by paragraph 8);
- (c) a workplace canteen from being open where there is no practical alternative for staff at that workplace to obtain food or drink;
- (d) the carrying out of maintenance and repairs or other work to ensure premises are suitable for use when sub-paragraph (1) no longer applies to the premises.

(3) At ddibenion is-baragraff (1), mae ardal o dan do sy'n gyfagos i fangre'r busnes lle y mae seddau yn cael eu rhoi ar gael i gwsmeriaid y busnes (pa un ai gan y busnes ai peidio) i'w thrin fel pe bai'n rhan o fangre'r busnes hwnnw.

(4) Pan—

- (a) bo'n ofynnol i berson sy'n gyfrifol am gynnal busnes ("busnes A") yn rhinwedd y paragraff hwn beidio â chynnal busnes A mewn mangre, a
- (b) bo busnes A yn ffurfio rhan o fusnes mwy ("busnes B"),

cydymffurfir â'r gofyniad yn y paragraff hwn os yw'r person sy'n gyfrifol am gynnal busnes B yn peidio â chynnal busnes A yn y fangre.

Cau llety gwyliau neu lety teithio nad yw'n hunangynhwysol

8.—(1) O ran person sy'n gyfrifol am gynnal busnes a restrir ym mharagraffau 15 i 18 (llety gwyliau neu lety teithio)—

- (a) rhaid iddo gau i aelodau'r cyhoedd unrhyw fangre a weithredir fel rhan o'r busnes, a
- (b) ni chaiff gynnal busnes yn y fangre honno ac eithrio yn unol â'r paragraff hwn.

(2) Ond nid yw is-baragraff (1) yn atal defnyddio mangre ar gyfer darparu llety—

- (a) mewn safle gwersylla neu safle gwyliau, ar yr amod mai pwyntiau dŵr a phwyntiau gwaredu gwastraff yw'r unig gyfleusterau a rennir a ddefnyddir gan westeion yn y safle gwersylla neu'r safle gwyliau, neu
- (b) mewn mangre ar wahân a hunangynhwysol.

(3) Ac nid yw is-baragraff (1) yn atal—

- (a) gwneud gwaith cynnal a chadw ac atgyweirio neu waith arall i sicrhau bod mangre yn addas i'w defnyddio pan nad yw is-baragraff (1) yn gymwys i'r fangre mwyach;
- (b) defnyddio mangre at unrhyw ddiben y mae Gweinidogion Cymru neu awdurdod lleol yn gofyn amdano neu'n ei awdurdodi;

(3) For the purposes of sub-paragraph (1), an indoor area adjacent to the premises of the business where seating is made available for customers of the business (whether or not by the business) is to be treated as part of the premises of that business.

(4) Where—

- (a) a person responsible for carrying on a business ("business A") is required by virtue of this paragraph to cease carrying on business A at premises, and
- (b) business A forms part of a larger business ("business B"),

the requirement in this paragraph is complied with if the person responsible for carrying on business B ceases to carry on business A at the premises.

Closure of holiday or travel accommodation that is not self-contained

8.—(1) A person responsible for carrying on a business which is listed in paragraphs 15 to 18 (holiday or travel accommodation) must—

- (a) close to members of the public any premises operated as part of the business, and
- (b) not carry on business at such premises otherwise than in accordance with this paragraph.

(2) But sub-paragraph (1) does not prevent the use of premises for the provision of accommodation—

- (a) in a camping site or holiday site, provided that the only shared facilities used by guests at the camping site or holiday site are water points and waste disposal points, or
- (b) in separate and self-contained premises.

(3) And sub-paragraph (1) does not prevent—

- (a) carrying out maintenance and repairs or other work to ensure premises are suitable for use when sub-paragraph (1) no longer applies to the premises;
- (b) the use of premises for any purpose as may be requested or authorised by the Welsh Ministers or a local authority;

- (c) darparu llety ar gyfer unrhyw bersonau sy'n aros yn y llety hwnnw pan ddechreuodd y paragraff hwn fod yn gymwys yn fwyaf diweddar i'r ardal y mae'r llety wedi ei leoli ynddi ac—
- (i) nad ydynt yn gallu dychwelyd i'w prif breswylfa, neu
 - (ii) sy'n defnyddio'r llety fel eu prif breswylfa;
- (d) defnyddio mangre i gynnal y busnes drwy ddarparu gwybodaeth neu wasanaethau eraill—
- (i) drwy wefan, neu fel arall drwy gyfathrebiad ar lein,
 - (ii) dros y ffôn, gan gynnwys ymholiadau drwy neges destun, neu
 - (iii) drwy'r post.
- (4) Nid yw mangre ar wahân ac yn hunangynhwysol at ddibenion y paragraff hwn ond—
- (a) os y'i darperir i bersonau sy'n aelodau o'r un aelwyd neu'r un aelwyd estynedig, a
 - (b) os na rennir unrhyw un neu ragor o'r canlynol ag aelodau o unrhyw aelwyd arall—
 - (i) ceginau,
 - (ii) manau cysgu,
 - (iii) ystafelloedd ymolchi, neu
 - (iv) manau cymunedol o dan do.
- (5) Yn y paragraff hwn—
- (a) nid yw derbynfa i'w thrin fel pe bai'n gyfleuster a rennir at ddibenion is-baragraff (2)(a);
 - (b) mae "mannau cymunedol" yn cynnwys unrhyw ardal o'r fangre sydd ar agor i'r cyhoedd, ond nid yw'n cynnwys derbynfa na choridorau, lifftiau na grisiau a ddefnyddir i fynd i rannau eraill o'r fangre.
- (6) Pan—
- (a) bo'n ofynnol i berson sy'n gyfrifol am gynnal busnes ("busnes A") yn rhinwedd y paragraff hwn beidio â chynnal busnes A mewn mangre, a
 - (b) bo busnes A yn ffurfio rhan o fusnes mwy ("busnes B"),
- (c) the provision of accommodation for any persons staying in that accommodation when this paragraph most recently began to apply to the area in which the accommodation is situated and who—
- (i) are unable to return to their main residence, or
 - (ii) are using the accommodation as their main residence;
- (d) the use of premises to carry on the business by providing information or other services—
- (i) through a website, or otherwise by on-line communication,
 - (ii) by telephone, including enquiries by text message, or
 - (iii) by post.
- (4) Premises are separate and self-contained for the purposes of this paragraph only if—
- (a) they are provided for persons who are members of the same household or extended household, and
 - (b) none of the following are shared with the members of any other household—
 - (i) kitchens,
 - (ii) sleeping areas,
 - (iii) bathrooms, or
 - (iv) indoor communal areas.
- (5) In this paragraph—
- (a) a reception area is not to be treated as a shared facility for the purposes of subparagraph (2)(a);
 - (b) "communal areas" includes any area of the premises that is open to the public, but does not include a reception area or corridors, lifts and staircases used to access other parts of the premises.
- (6) Where—
- (a) a person responsible for carrying on a business ("business A") is required by virtue of this paragraph to cease carrying on business A at premises, and
 - (b) business A forms part of a larger business ("business B"),

cydymffurfir â'r gofyniad yn y paragraff hwn os yw'r person sy'n gyfrifol am gynnal busnes B yn peidio â chynnal busnes A yn y fangre.

Cau canolfannau cymunedol ac amlogfeydd

9.—(1) Rhaid i berson sy'n gyfrifol am fangre sydd o fath a restrir ym mharagraffau 19 ac 20 sicrhau bod y fangre ar gau i aelodau'r cyhoedd, ac eithrio ar gyfer y defnydd a ganiateir gan is-baragraffau (2) a (3).

(2) Caiff canolfan gymunedol fod ar agor—

- (a) i ddarparu gwasanaethau gwirfoddol hanfodol, neu
- (b) i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus ar gais Gweinidogion Cymru neu awdurdod lleol.

(3) Caiff amlogfa agor i aelodau'r cyhoedd ar gyfer angladdau neu gladdu (ac i ddarlledu angladd neu gladdu pa un ai dros y rhyngwyd neu fel arall).

(4) Nid yw is-baragraff (1) yn gymwys i'r tir o amgylch—

- (a) canolfan gymunedol;
- (b) amlogfa, gan gynnwys unrhyw gladdfa neu ardd goffa.

(5) Yn y paragraff hwn, mae "gwasanaethau cyhoeddus" yn cynnwys darparu banciau bwyd neu gymorth arall ar gyfer pobl ddigartref neu bobl hyglwyf, gofal plant, sesiynau rhoi gwaed neu gymorth mewn argyfwng.

PENNOD 2

*Busnesau neu wasanaethau y mae'n ofynnol
cau eu mangreoedd*

Cau busnesau a gwasanaethau

10.—(1) O ran person sy'n gyfrifol am gynnal busnes neu ddarparu gwasanaeth a restrir ym mharagraffau 21 i 47—

- (a) rhaid iddo gau i aelodau'r cyhoedd unrhyw fangre a weithredir fel rhan o'r busnes neu'r gwasanaeth, a
- (b) ni chaiff gynnal y busnes neu'r gwasanaeth yn y fangre honno ac eithrio yn unol â'r paragraff hwn.

the requirement in this paragraph is complied with if the person responsible for carrying on business B ceases to carry on business A at the premises.

Closure of community centres and crematoriums

9.—(1) A person responsible for premises that are of a kind listed in paragraphs 19 and 20 must ensure that the premises are closed to members of the public, except for the uses permitted by sub-paragraphs (2) and (3).

(2) A community centre may be open—

- (a) to provide essential voluntary services, or
- (b) to provide public services upon the request of the Welsh Ministers or a local authority.

(3) A crematorium may open to members of the public for funerals or burials (and to broadcast a funeral or burial whether over the internet or otherwise).

(4) Sub-paragraph (1) does not apply to the grounds surrounding—

- (a) a community centre;
- (b) a crematorium, including any burial ground or garden of remembrance.

(5) In this paragraph, "public services" includes the provision of food banks or other support for homeless or vulnerable people, childcare, blood donation sessions or support in an emergency.

CHAPTER 2

*Businesses or services whose premises are
required to be closed*

Closure of businesses and services

10.—(1) A person responsible for carrying on a business or providing a service which is listed in paragraphs 21 to 47 must—

- (a) close to members of the public any premises operated as part of the business or service, and
- (b) not carry on the business or service at such premises otherwise than in accordance with this paragraph.

(2) Nid yw is-baragraff (1) yn atal—

- (a) gwneud gwaith cynnal a chadw ac atgyweirio neu waith arall i sicrhau bod mangre yn addas i'w defnyddio pan nad yw is-baragraff (1) yn gymwys i'r fangre mwyach;
- (b) defnyddio mangre at unrhyw ddiben y mae Gweinidogion Cymru neu awdurdod lleol yn gofyn amdano neu'n ei awdurdodi;
- (c) defnyddio mangre i ddarlledu heb gynulleidfa yn bresennol yn y fangre (pa un ai dros y rhyngwyd neu fel rhan o ddarllediad radio neu deledu) neu i ymarfer;
- (d) defnyddio mangre ar gyfer darparu nwyddau neu wasanaethau (gan gynnwys eu gwerthu, eu llogi, eu casglu neu eu danfon) mewn ymateb i archeb neu ymholiad a wneir—
 - (i) drwy wefan, neu fel arall drwy gyfathrebiad ar lein,
 - (ii) dros y ffôn, gan gynnwys drwy neges destun, neu
 - (iii) drwy'r post;
- (e) defnyddio mangre ar gyfer darparu gwybodaeth—
 - (i) drwy wefan, neu fel arall drwy gyfathrebiad ar lein,
 - (ii) dros y ffôn, gan gynnwys drwy neges destun, neu
 - (iii) drwy'r post.

(3) Er gwaethaf is-baragraff (1), caiff person sy'n gyfrifol am gynnal busnes neu ddarparu gwasanaeth—

- (a) a restrir ym mharagraff 21 (salonau gwallt a barbwyr) agor ei fangre i'r cyhoedd, ond dim ond at ddibenion torri, steilio neu liwio gwallt, drwy apwyntiad;
- (b) a restrir ym mharagraff 34 (busnesau gwyliau, gweithgareddau hamdden neu ddigwyddiadau) agor ei fangre i'r cyhoedd, ond dim ond at ddibenion hwyluso gweithgaredd wedi ei drefnu yn yr awyr agored er datblygiad neu lesiant personau a oedd o dan 18 oed ar 31 Awst 2020 (gan gynnwys chwaraeon, cerddoriaeth a gweithgareddau hamdden eraill megis y rheini a ddarperir ar gyfer plant y tu allan i oriau'r ysgol ac yn ystod gwyliau'r ysgol).

(2) Sub-paragraph (1) does not prevent—

- (a) carrying out maintenance and repairs or other work to ensure premises are suitable for use when sub-paragraph (1) no longer applies to the premises;
- (b) the use of premises for any purpose as may be requested or authorised by the Welsh Ministers or a local authority;
- (c) the use of premises to broadcast without an audience present at the premises (whether over the internet or as part of a radio or television broadcast) or to rehearse;
- (d) the use of premises for the provision of goods or services (including their sale, hire, collection or delivery) in response to an order or enquiry made—
 - (i) through a website, or otherwise by on-line communication,
 - (ii) by telephone, including by text message, or
 - (iii) by post;
- (e) the use of premises for the provision of information—
 - (i) through a website, or otherwise by on-line communication,
 - (ii) by telephone, including by text message, or
 - (iii) by post.

(3) Despite sub-paragraph (1), a person responsible for carrying on a business or providing a service—

- (a) listed in paragraph 21 (hair salons and barbers) may open its premises to the public, but only for the purposes of cutting, styling or colouring hair, by appointment;
- (b) listed in paragraph 34 (holiday, leisure activity or events businesses) may open its premises to the public, but only for the purposes of facilitating an outdoor organised activity for the development or well-being of persons who were aged under 18 on 31 August 2020 (including sports, music and other recreational activities such as those provided for children outside of school hours and during school holidays).

(4) Pan—

- (a) bo'n ofynnol i berson sy'n gyfrifol am gynnal busnes ("busnes A") yn rhinwedd y paragraff hwn beidio â chynnal busnes A mewn mangre, a
- (b) bo busnes A yn ffurfio rhan o fusnes mwy ("busnes B"),

cydymffurfir â'r gofyniad yn y paragraff hwn os yw'r person sy'n gyfrifol am gynnal busnes B yn peidio â chynnal busnes A yn y fangre.

PENNOD 3

Busnesau a gwasanaethau y mae eu mangreodded wedi eu hesemptio rhag y gofyniad i gau

Esemptiad rhag y gofyniad i gau

11.—(1) Er gwaethaf darpariaethau blaenorol y Rhan hon—

- (a) caiff mangreodded a weithredir gan fusnesau neu wasanaethau a restrir ym mharagraffau 48 i 66 barhau i fod ar agor;
- (b) caiff mangre a gymeradwywyd agor i'r cyhoedd i'r graddau y mae hyn yn ofynnol at ddibenion gweinyddu priodas, ffurfio partneriaeth sifil neu seremoni briodas arall yn y fangre;
- (c) caiff canolfannau siopa, arcedau siopa a marchnadoedd fod ar agor i'r cyhoedd i'r graddau y mae hyn yn ofynnol i fynd i fusnes neu ddefnyddio gwasanaeth a restrir ym mharagraffau 48 i 66.

(2) Ni chaiff person sy'n gyfrifol am fangre sydd wedi ei hawdurdodi ar gyfer gwerthu neu gyflenwi alcohol i'w yfed oddi ar y fangre werthu neu gyflenwi alcohol rhwng 10.00 p.m. a 6.00 a.m.

(3) Nid yw is-baragraff (2) yn caniatáu i'r person sy'n gyfrifol am y fangre werthu neu gyflenwi alcohol yn groes i awdurdodiad sydd wedi ei ganiatáu neu ei roi mewn cysylltiad â'r fangre.

(4) Where—

- (a) a person responsible for carrying on a business ("business A") is required by virtue of this paragraph to cease carrying on business A at premises, and
- (b) business A forms part of a larger business ("business B"),

the requirement in this paragraph is complied with if the person responsible for carrying on business B ceases to carry on business A at the premises.

CHAPTER 3

Businesses and services whose premises are exempt from the requirement to close

Exemption from the requirement to be closed

11.—(1) Despite the preceding provisions of this Part—

- (a) premises operated by businesses or services listed in paragraphs 48 to 66 may continue to be open;
- (b) approved premises may be open to the public to the extent that this is required for the purposes of the solemnisation or a marriage, formation of civil partnership or alternative wedding ceremony at the premises;
- (c) shopping centres, shopping arcades and markets may be open to the public to the extent that this is required for access to a business or service listed in paragraphs 48 to 66.

(2) A person responsible for premises authorised for the sale or supply of alcohol for consumption off the premises may not sell or supply alcohol between 10.00 p.m. and 6.00 a.m.

(3) Sub-paragraph (2) does not allow the person responsible for the premises to sell or supply alcohol in contravention of an authorisation granted or given in respect of the premises.

(4) Yn y paragraff hwn, ystyr “mangre a gymeradwywyd” yw mangre sydd wedi ei chymeradwyo yn unol â Rheoliadau Priodasau a Phartneriaethau Sifil (Mangreoedd a Gymeradwywyd) 2005(1)—

- (a) fel mangre y caniateir i briodasau gael eu gweinyddu ynddi yn unol ag adran 26(1)(bb) o Ddeddf Priodas 1949(2), neu
- (b) at ddibenion adran 6(3A)(a) o Ddeddf Partneriaeth Sifil 2004(3).

PENNOD 4

Rhestr o fangreoedd sydd ar gau

Mangreoedd sydd ar gau

Busnesau bwyd a diod

12. Bariau (gan gynnwys bariau mewn clybiau aelodau).

13. Tafarndai.

14. Caffis, ffreuturau a bwytai (gan gynnwys ffreuturau yn y gweithle ac ystafelloedd bwyta mewn clybiau aelodau).

Llety gwyliau neu lety teithio

15. Safleoedd gweryslla.

16. Safleoedd gwyliau.

17. Gwestai a llety gwely a brecwast;

18. Llety gwyliau arall (gan gynnwys fflatiau gwyliau, hostelau a thai byrddio).

Gwasanaethau cyhoeddus etc.

19. Canolfannau cymunedol.

20. Amlogfeydd.

Gwasanaethau personol etc.

21. Salonau gwallt a barbwyrr.

22. Salonau ewinedd a harddwch gan gynnwys gwasanaethau lliw haul ac electrolysis.

(4) In this paragraph, “approved premises” means premises approved in accordance with Marriages and Civil Partnerships (Approved Premises) Regulations 2005(1)—

- (a) as premises on which marriages may be solemnised in pursuance of section 26(1)(bb) of the Marriage Act 1949(2), or
- (b) for the purposes of section 6(3A)(a) of the Civil Partnership Act 2004(3).

CHAPTER 4

List of closed premises

Closed premises

Food and drink businesses

12. Bars (including bars in members’ clubs).

13. Public houses.

14. Cafes, canteens and restaurants (including workplace canteens and dining rooms in members’ clubs).

Holiday or travel accommodation

15. Camping sites.

16. Holiday sites.

17. Hotels and bed and breakfast accommodation;

18. Other holiday accommodation (including holiday apartments, hostels and boarding houses).

Public services etc.

19. Community centres.

20. Crematoriums.

Personal services etc.

21. Hair salons and barbers.

22. Nail and beauty salons including tanning and electrolysis services.

(1) O.S. 2005/3168, fel y’i diwygiwyd gan O.S. 2011/2661, O.S. 2013/2294 ac O.S. 2019/1458.

(2) 1949 p. 76; amnewidiwyd adran 26 gan adran 3 o Ddeddf Priodas (Parau o’r Un Rhyw) 2013 (p. 30).

(3) 2004 p. 33; amnewidiwyd adran 6(3A) gan baragraff 2(2) o Atodlen 1 i O.S. 2005/2000.

(1) S.I. 2005/3168, as amended by S.I. 2011/2661, S.I. 2013/2294 and S.I. 2019/1458.

(2) 1949 c. 76; section 26 was substituted by section 3 of the Marriage (Same Sex Couples) Act 2013 (c. 30).

(3) 2004 c. 33; section 6(3A) was substituted by paragraph 2(2) of Schedule 1 to S.I. 2005/2000.

23. Gwasanaethau tyllu'r corff a thatwio.

Hamdden a chymdeithasol etc.

24. Clybiau nos, disgos, neuaddau dawnsio neu leoliadau eraill sydd wedi eu hawdurdodi ar gyfer gwerthu neu gyflenwi alcohol lle y darperir cerddoriaeth fyw neu wedi ei recordio i aelodau'r cyhoedd neu aelodau'r lleoliad ddawnsio.

25. Lleoliadau adloniant rhywiol (o fewn yr ystyr a roddir i "sexual entertainment venue" gan baragraff 2A o Atodlen 3 i Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1982).

26. Sinemâu.

27. Neuaddau cyngerdd a theatrau.

28. Casinos.

29. Neuaddau bingo.

30. Arcedau diddanu.

31. Alïau bowlio.

32. Canolfannau neu fannau chwarae o dan do.

33. Ffeiriau pleser, parciau diddanu a pharciau thema.

34. Busnesau gwyliau, gweithgareddau hamdden neu ddigwyddiadau.

35. Amgueddfeydd ac orielau.

36. Rinciau sglefrio.

37. Parciau a chanolfannau trampolîn.

38. Parciau a chanolfannau sglefrio o dan do.

39. Sbaon.

40. Lleoliadau ar gyfer digwyddiadau neu gynadleddau (gan gynnwys lleoliadau ar gyfer priodasau).

41. Atyniadau i ymwelwyr ac eithrio—

- (a) ardaloedd cyhoeddus yn yr awyr agored mewn mangre lle y mae heneb gofrestredig (o fewn yr ystyr a roddir i "scheduled monument" gan adran 1(11) o Ddeddf Henebion Hynafol ac Ardaloedd Archaeolegol 1979(1));

23. Body piercings and tattooing services.

Leisure and social etc.

24. Nightclubs, discotheques, dance halls or other venues authorised for the sale or supply of alcohol where live or recorded music is provided for members of the public or members of the venue to dance.

25. Sexual entertainment venues (within the meaning given by paragraph 2A of Schedule 3 to the Local Government (Miscellaneous Provisions) Act 1982).

26. Cinemas.

27. Concert halls and theatres.

28. Casinos.

29. Bingo halls.

30. Amusement arcades.

31. Bowling alleys.

32. Indoor play centres or areas.

33. Funfairs, amusement parks and theme parks.

34. Holiday, leisure activity or events businesses.

35. Museums and galleries.

36. Skating rinks.

37. Trampoline parks and centres.

38. Indoor skate parks and centres.

39. Spas.

40. Venues for events or conferences (including venues for weddings).

41. Visitor attractions other than—

- (a) public outdoor areas of premises on which a scheduled monument (within the meaning given by section 1(11) of the Ancient Monuments and Archaeological Areas Act 1979(1)) is situated;

- (b) ardaloedd cyhoeddus yn yr awyr agored mewn parc neu ardd sydd wedi ei gofrestru neu ei chofrestru yn y gofrestr o barciau a gerddi o ddiddordeb hanesyddol arbennig yng Nghymru a gynhelir gan Weinidogion Cymru ac a gyhoeddir ganddynt o bryd i'w gilydd(1);
- (c) ardaloedd cyhoeddus o dan do mewn man y cyfeirir ato ym mharagraff (a) neu (b) pan fo'n angenrheidiol i'r ardal o dan do fod ar agor—
 - (i) i ganiatáu mynediad i'r ardaloedd cyhoeddus yn yr awyr agored,
 - (ii) am resymau iechyd a diogelwch, neu
 - (iii) i sicrhau y cydymffurfir â'r gofynion yn Rhan 4 o'r Rheoliadau hyn mewn perthynas â'r fangre.

Chwaraeon ac ymarfer corff

42. Cyfleusterau chwaraeon neu ymarfer corff o dan do, gan gynnwys stiwdios ffitrwydd a champfeydd o dan do.

43. Pyllau nofio.

44. Cyrtiau chwaraeon o dan do, lawntiau bowllo o dan do a meysydd neu leiniau chwaraeon eraill o dan do.

Manwerthu etc.

45. Unrhyw fusnes sy'n cynnig nwyddau neu wasanaethau ar gyfer eu gwerthu neu eu llogi mewn mangre fanwerthu.

46. Canolfannau siopa ac arcedau siopa.

47. Asiantau eiddo neu asiantau gosod eiddo a swyddfeydd gwerthiant datblygwyr.

Mangreodd esempt

Gwasanaethau cyhoeddus etc.

48. Gwasanaethau deintyddol, optegwyr, gwasanaethau awdioleg, gwasanaethau trin traed, ceiropractyddion, osteopathiaid, gwasanaethau ffisiotherapi, gwasanaethau aciwbigo a gwasanaethau meddygol neu iechyd eraill, gan gynnwys gwasanaethau sy'n ymwneud ag iechyd meddwl.

- (b) public outdoor areas of a park or garden registered in the register of parks and gardens of special historic interest in Wales maintained by the Welsh Ministers and published by them from time to time(1);

- (c) public indoor areas of a place referred to in paragraph (a) or (b) where it is necessary for the indoor area to be open—

- (i) to allow access to the public outdoors areas,

- (ii) for health and safety reasons, or

- (iii) to ensure that the requirements in Part 4 of these Regulations are complied with in relation to the premises.

Sports and exercise.

42. Indoor sports or exercise facilities, including indoor fitness studios and gyms.

43. Swimming pools.

44. Indoor sports courts, indoor bowling greens and other indoor sports grounds or pitches.

Retail etc.

45. Any business offering goods or services for sale or hire in retail premises.

46. Shopping centres and shopping arcades.

47. Estate or letting agents and developer sales offices.

Exempt premises

Public services etc.

48. Dental services, opticians, audiology services, chiropody, chiropractors, osteopaths, physiotherapy services, acupuncture services and other medical or health services, including services relating to mental health.

(1) Gellir chwilio am barciau a gerddi cofrestredig ar wefan cofnodion amgylchedd hanesyddol Cymru 'Archwilio', sydd ar gael ar https://archwilio.org.uk/arch/index_cym.html

(1) Registered parks and gardens may be searched on the historic environment records of Wales' 'Archwilio' website, available at <https://archwilio.org.uk/arch/index.html>

49. Trefnwyr angladdau.

50. Milfeddygon.

Busnesau bwyd a diod

51. Caffis a ffreuturau mewn ysbyty, cartref gofal, ysgol neu mewn llety a ddarperir ar gyfer myfyrwyr.

52. Ffreuturau mewn carchar neu sefydliad y bwriedir ei ddefnyddio at ddibenion y llynges, y fyddin neu'r awyrlu neu at ddibenion Adran yr Ysgrifennydd Gwladol sy'n gyfrifol am amddiffyn.

Manwerthu etc.

53. Busnesau sy'n cynnig y nwyddau a ganlyn ar gyfer eu gwerthu neu eu llogi mewn siop—

- (a) bwyd neu ddiod i'w fwyta neu i'w hyfed oddi ar y fangre (gan gynnwys bwyd ar gyfer anifeiliaid anwes ac anifeiliaid domestig eraill);
- (b) cynhyrchion sy'n hanfodol ar gyfer storio a pharatoi bwyd neu ddiod neu ar gyfer bwyta bwyd neu yfed diod;
- (c) cynhyrchion ar gyfer cynnal, cynnal a chadw neu weithrediad hanfodol y cartref neu weithle;
- (d) cynhyrchion fferyllol, cynhyrchion iechyd a gofal personol, cynhyrchion babanod (gan gynnwys dillad), cynhyrchion ymolchi a chynhyrchion cosmetig;
- (e) papurau newydd a chylchgronau;
- (f) beiciau a chynhyrchion sy'n hanfodol ar gyfer defnyddio a chynnal a chadw beiciau,

ond dim ond at ddibenion gwerthu neu logi'r nwyddau hynny.

54. Marchnadoedd bwyd, siopau cyfleustra, siopau cornel, siopau anifeiliaid anwes, siopau sydd â thrwydded i werthu alcohol i'w yfed oddi ar eu mangreoedd, gorsafoedd petrol, canolfannau garddio a meithrinfeydd planhigion.

55. Archfarchnadoedd a siopau eraill sy'n gwerthu sawl math o nwyddau—

- (a) a oedd ar agor i'r cyhoedd ar 11 Mawrth 2021, a

49. Funeral directors.

50. Veterinary surgeons.

Food and drink businesses

51. Cafés and canteens at a hospital, care home, school or within accommodation provided for students.

52. Canteens at a prison or an establishment intended for use for naval, military or air force purposes or for the purposes of the Department of the Secretary of State responsible for defence.

Retail etc.

53. Businesses offering the following goods for sale or hire in a shop—

- (a) food or drink for consumption off the premises (including food for pets and other domestic animals);
- (b) products essential for the storage, preparation or consumption of food or drink;
- (c) products for the essential upkeep, maintenance or functioning of the home or a workplace;
- (d) pharmaceutical products, health and personal care products, baby products (including clothing), toiletries and cosmetics;
- (e) newspapers and magazines;
- (f) bicycles and products essential for the use and maintenance of bicycles,

but only for the purposes of selling or hiring those goods.

54. Food markets, convenience stores, corner shops, pet shops, off licences, petrol stations, garden centres and plant nurseries.

55. Supermarkets and other shops selling multiple types of goods—

- (a) which were open to the public on 11 March 2021, and

(b) sy'n defnyddio eu mangre, yng nghwrs arferol eu busnes, yn bennaf i werthu—

- (i) nwyddau a restrir ym mharagraff 53, neu
- (ii) nwyddau o fath a werthir fel arfer gan unrhyw un neu ragor o'r busnesau a restrir ym mharagraff 54.

56. Siopau sy'n gwerthu sawl math o nwyddau nad ydynt yn dod o fewn paragraff 55, ond dim ond at ddibenion—

- (a) gwerthu'r nwyddau a restrir ym mharagraff 53;
- (b) gwerthu nwyddau o fath a werthir fel arfer gan unrhyw un neu ragor o'r busnesau a restrir ym mharagraff 54;
- (c) gwerthu nwyddau eraill—
 - (i) pan na fo'n rhesymol ymarferol gwahanu neu ddarnodi'r ardaloedd hynny o siop sy'n arddangos nwyddau o'r fath fel arfer oddi wrth yr ardaloedd hynny sy'n arddangos y nwyddau a grybwyllir ym mharagraffau (a) neu (b);
 - (ii) ar sail eithriadol pan fo angen y nwyddau mewn argyfwng neu ar sail dosturiol.

57. Siopau sy'n cynnig gwasanaethau cynnal a chadw neu atgyweirio ar gyfer dyfeisiau telathrebu neu dechnoleg gwybodaeth.

58. Siopau cyflenwadau adeiladu ac offer.

59. Banciau, cymdeithasau adeiladu a darparwyr gwasanaethau ariannol eraill.

60. Swyddfeydd post.

61. Gwasanaethau trwsio ceir ac MOT.

62. Golchfeydd ceir awtomatig.

63. Marchnadoedd neu arwerthiannau da byw.

64. Golchdai a siopau sychlanhau.

65. Busnesau tacsï neu logi cerbydau.

66. Siopau cyflenwadau amaethyddol neu ddyframaethu."

(5) Yn Atodlen 5—

- (a) ym mharagraff 1, yng Ngholofn 3 o'r tabl, yn lle'r testun ar ôl "Lefel Rhybudd yr Ardal" rhodder "3";
- (b) yn lle paragraff 2 rhodder—

(b) which use their premises, in the ordinary course of their business, mainly to sell—

- (i) goods listed in paragraph 53, or
- (ii) goods of a type ordinarily sold by any of the businesses listed in paragraph 54.

56. Shops selling multiple types of goods that do not fall within paragraph 55, but only for the purposes of—

- (a) selling the goods listed in paragraph 53;
- (b) selling goods of a type ordinarily sold by any of the businesses listed in paragraph 54;
- (c) selling other goods—
 - (i) where it is not reasonably practicable to separate or demarcate those areas of a shop that ordinarily displays such goods from those areas that display the goods mentioned in paragraphs (a) and (b);
 - (ii) on an exceptional basis where the goods are required in an emergency or on compassionate grounds.

57. Shops offering maintenance or repair services for telecommunications or information technology devices.

58. Building supplies and hardware stores.

59. Banks, building societies and other financial services providers.

60. Post offices.

61. Car repair and MOT services.

62. Automatic car washes.

63. Livestock markets or auctions.

64. Laundrettes and dry cleaners.

65. Taxi or vehicle hire businesses.

66. Agricultural or aquacultural supplies shops."

(5) In Schedule 5—

- (a) in paragraph 1, in Column 3 of the table, for the text after "Alert Level of Area" substitute "3";
- (b) for paragraph 2 substitute—

“Addasiadau dros dro

2. Mewn perthynas ag ardal Lefel Rhybudd 3, am y cyfnod sy'n dod i ben ar ddiwedd y diwrnod ar 11 Ebrill 2021—

- (a) mae rheoliad 25 i'w ddarllen fel pe bai'r canlynol wedi ei roi yn lle paragraff (3)(a)(iv)—

“(iv) paragraff 7(1), 8(1), 9(1), 10(1) neu 11(2) o Atodlen 3A, neu”;

- (b) mae rheoliad 27 i'w ddarllen fel pe bai'r canlynol wedi ei roi yn lle paragraff (1)(d)—

“(d) paragraff 7(1), 8(1), 9(1), 10(1) neu 11(2) o Atodlen 3A, neu”;

- (c) mae rheoliad 28 i'w ddarllen fel pe bai—

- (i) ym mharagraff (1)(c), “Atodlen 3A” wedi ei roi yn lle “Atodlen 3”;

- (ii) y canlynol wedi ei roi yn lle paragraff (3)(c)—

“(c) paragraff 2(1) neu 3(1) o Atodlen 3A, neu”;

- (d) mae rheoliad 29 i'w ddarllen fel pe bai—

- (i) ym mharagraff (1)(c), “Atodlen 3A” wedi ei roi yn lle “Atodlen 3”;

- (ii) ym mharagraff (3)(c), “Atodlen 3A” wedi ei roi yn lle “Atodlen 3”;

- (iii) ym mharagraff (5)(c), “Atodlen 3A” wedi ei roi yn lle “Atodlen 3”;

- (iv) ym mharagraff (7)(c), “Atodlen 3A” wedi ei roi yn lle “Atodlen 3”;

- (e) mae rheoliad 31(1)(b) i'w ddarllen fel pe bai “paragraff 5 o Atodlen 3A” wedi ei roi yn lle “paragraff 4 o Atodlen 3”;

- (f) mae rheoliad 37 i'w ddarllen fel pe bai—

- (i) y canlynol wedi ei roi yn lle paragraff (1)(c)—

“(c) paragraff 1(1), 2(1) neu 3(1) o Atodlen 3A, neu”;

- (ii) ym mharagraff (2)(c)(iii), “Atodlen 3A” wedi ei roi yn lle “Atodlen 3”;

“Temporary modifications

2. In relation to an Alert Level 3 area, for the period ending at the end of the day on 11 April 2021—

- (a) regulation 25 is to be read as if for paragraph (3)(a)(iv) there were substituted—

“(iv) paragraph 7(1), 8(1), 9(1), 10(1) or 11(2) of Schedule 3A, or”;

- (b) regulation 27 is to be read as if for paragraph (1)(d) there were substituted—

“(d) paragraph 7(1), 8(1), 9(1), 10(1) or 11(2) of Schedule 3A, or”;

- (c) regulation 28 is to be read as if—

- (i) in paragraph (1)(c), for “Schedule 3” there were substituted “Schedule 3A”;

- (ii) for paragraph (3)(c) there were substituted—

“(c) paragraph 2(1) or 3(1) of Schedule 3A, or”;

- (d) regulation 29 is to be read as if—

- (i) in paragraph (1)(c), for “Schedule 3” there were substituted “Schedule 3A”;

- (ii) in paragraph (3)(c), for “Schedule 3” there were substituted “Schedule 3A”;

- (iii) in paragraph (5)(c), for “Schedule 3” there were substituted “Schedule 3A”;

- (iv) in paragraph (7)(c), for “Schedule 3” there were substituted “Schedule 3A”;

- (e) regulation 31(1)(b) is to be read as if for “paragraph 4 of Schedule 3” there were substituted “paragraph 5 of Schedule 3A”;

- (f) regulation 37 is to be read as if—

- (i) for paragraph (1)(c) there were substituted—

“(c) paragraph 1(1), 2(1) or 3(1) of Schedule 3A, or”;

- (ii) in paragraph (2)(c)(iii) for “Schedule 3” there were substituted “Schedule 3A”;

- (g) mae rheoliad 38(c) i'w ddarllen fel pe bai "Atodlen 3A" wedi ei roi yn lle "Atodlen 3";
- (h) mae rheoliad 39 i'w ddarllen fel pe bai'r canlynol wedi ei roi yn lle paragraff (1)(c)—
“(c) paragraff 5 o Atodlen 3A, neu”;
- (i) mae rheoliad 42 i'w ddarllen fel pe bai'r canlynol wedi ei roi yn lle paragraff (1)(c)—
“(c) paragraff 7(1), 8(1), 9(1), 10(1) neu 11(2) o Atodlen 3A, neu”.

- (g) regulation 38(c) is to be read as if for “Schedule 3” there were substituted “Schedule 3A”;
- (h) regulation 39 is to be read as if for paragraph (1)(c) there were substituted—
“(c) paragraph 5 of Schedule 3A, or”
;
- (i) regulation 42 is to be read as if for paragraph (1)(c) there were substituted—
“(c) paragraph 7(1), 8(1), 9(1), 10(1) or 11(2) of Schedule 3A, or”.

Dirymu rheoliad 3(2) o Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 5) 2021

3. Mae rheoliad 3(2) o Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 5) 2021(1) wedi ei ddirymu.

Revocation of regulation 3(2) of the Health Protection (Coronavirus Restrictions) (No. 5) (Wales) (Amendment) (No. 5) Regulations 2021

3. Regulation 3(2) of the Health Protection (Coronavirus Restrictions) (No. 5) (Wales) (Amendment) (No. 5) Regulations 2021(1) is revoked.

Mark Drakeford

Y Prif Weinidog, un o Weinidogion Cymru
Am 1.36 p.m. ar 26 Mawrth 2021

First Minister, one of the Welsh Ministers
At 1.36 p.m. 26 March 2021

©Hawlfrant y Goron 2021

© Crown copyright 2021

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Jeff James, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

Printed and published in the UK by The Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Jeff James, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

(1) O.S. 2021/307 (Cy. 79).

(1) S.I. 2021/307 (W. 79).

£6.90

<http://www.legislation.gov.uk/id/wsi/2021/413>

ISBN 978-0-348-11956-5



9 780348 119565